Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

# Asesiad o Effaith Gyfunol Cydraddoldeb, Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Gymraeg

| | |
|---|---|
| Enw'r polisi, strategaeth, prosiect, rhaglen neu gynllun – y Cynnig: | Cynllun Gweithredol 2020/21 |
| Fersiwn newydd: | Ydy/Nac ydy |
| Diweddariad i'r fersiwn bresennol: | Ydy/Nac ydy |
| Tîm/adran: | Uned y Prif Weithredwr |
| Person sy'n cynnal yr asesiad: | Angela Thomas |
| Dyddiad yr asesiad: | 26 Mehefin 2020 |

## Cynnwys


**Cyflwyniad** 3

1. Beth yw prif nod/diben/canlyniad y cynnig? 3

2. Ar bwy y mae'r cynnig yn effeithio neu pwy sydd i fod cael budd o'r cynnig a sut? 4

3. A yw'r bobl yr effeithiwyd arnynt wedi cael eu cynnwys ac a ymgynghorwyd â nhw? 5

4. Beth sy'n digwydd i gyfyngu ar unrhyw effaith negyddol neu hyrwyddo effaith gadarnhaol ar grwpiau gwarchodedig, y Gymraeg a nodau Cenedlaethau'r Dyfodol? 5

5. Sut y bydd y cynnig yn hyrwyddo cydraddoldeb, dileu gwahaniaethu a hyrwyddo cysylltiadau da? 6

**Atodiad 1** 7

Asesu effaith a chryfhau 7

**Atodiad 2** 34

Camau gweithredu a nodir drwy'r asesiad 34



Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®

## Cyflwyniad

Diben yr asesiad o effaith gyfunol yw sicrhau bod y polisïau a'r strategaethau rydym ni’n eu datblygu yn hyrwyddo blaenoriaethau cyffredinol Cyngor Celfyddydau Cymru. Yma mae’n golygu cydraddoldeb, y Gymraeg, a 7 nod llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae'r asesiad yn cyfrannu at lunio polisïau effeithiol drwy ein hannog i feddwl am effaith a chanlyniadau ein gwaith. Trwy fynd i'r afael â'r materion hyn yn benodol ar y cam cynllunio cynharaf, rydym ni’n fwy tebygol o ddatblygu cynigion sy'n bodloni blaenoriaethau'r Cyngor orau. Ac os yw'r broses yn nodi problemau, mae gennym gyfle i gymryd camau lliniaru i unioni pethau. Mae hyn yn ein helpu i fodloni ein gofynion o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, Mesur y Gymraeg 2011 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Trwy'r ddogfen, defnyddiwn y gair 'cynnig' i gyfeirio at yr hyn rydym ni’n ei asesu. Yn y cyd-destun yma, mae'r term yn cynnwys strategaethau, prosiectau, polisïau, rhaglenni a mentrau, gan gynnwys rhai newydd ac unrhyw rai presennol sy'n cael eu newid/diweddaru'n sylweddol.

A fyddech cystal ag ymateb i'r cwestiynau canlynol, gan ddarparu lefelau priodol o fanylion?

## 1. Beth yw prif nod/diben/canlyniad y cynnig?

Mae ein **Cynllun Gweithredol** – y mae’r Cyngor yn cytuno arno bob blwyddyn – yn disgrifio'r gweithgareddau y byddwn ni’n ymgymryd â nhw yn ystod y flwyddyn i ddod. Mae'r cynllun yn disgrifio ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn yna ac felly'n pennu ein gwariant yn ogystal â dyrannu amser staff ac adnoddau eraill.

Dyma'r ail gynllun gweithredol ers cyhoeddi ein cynllun corfforaethol, “*Er budd pawb...*”.

Mae'r camau gweithredu sydd yn y cynllun gweithredol yn targedu ein 3 blaenoriaeth:

1. Hyrwyddo **Cydraddoldeb** yn sylfaen i’n hymrwymiad clir i ymestyn yn ehangach ac yn ddyfnach i bob cymuned ledled Cymru

2. **Cryfhau gallu a gwytnwch** y sector, gan alluogi talent greadigol i ffynnu

3. **Galluogi'r Cyngor i weithio'n fwy effeithiol**, gan gydweithio'n fwy dychmygus â phartneriaid ledled Cymru

Mae ein rhaglenni gwaith yn adlewyrchu ein blaenoriaethau a'r gofynion yn ein llythyr cylch gwaith gan Lywodraeth Cymru. Eleni, yn benodol, rydym ni hefyd yn ymateb i

effaith sylweddol pandemig byd-eang y coronafeirws ar sector y celfyddydau yng Nghymru. Ym mhob maes rydym ni’n nodi ein 3 prif weithred – 21 i gyd. Y camau gweithredu yn ein cynllun gweithredol yw ein gweithredoedd cyhoeddus, allweddol. Efallai y bydd angen eu diwygio'n ddiweddarach yn y flwyddyn gan ddibynnu ar gynnydd y coronafeirws.

Mae ein gwaith yn digwydd yng nghyd-destun nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau Dyfodol Llywodraeth Cymru. Caiff ei lywio gan y pum ffordd o weithio:

Hirdymor, Atal, Integreiddio, Cydweithio, Cymryd rhan

Hefyd rydym ni’n cydymffurfio â dau ddarn arall o ddeddfwriaeth.

Mae dylet swyddau penodol ar y Sector Cyhoeddus o ran Cydraddoldeb. Rhaid cymryd camau penodol i sicrhau bod Cymru yn wlad decach a mwy cyfartal.

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn sefydlu'r egwyddor y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus.

## 2. Ar bwy y mae'r cynnig yn effeithio neu pwy sydd i fod cael budd o'r cynnig a sut?

Mae’r cynlluniau corfforaethol a gweithredol yn hollgynhwysol. Felly maent yn effeithio ar ystod eang o unigolion a sefydliadau sy’n cael budd, gan gynnwys:

- artistiaid a sefydliadau celfyddydol
- awdurdodau lleol
- partneriaid prosiect
- y cyhoedd

Rydym ni’n bwriadu i'n hamcanion gynrychioli Cymru a'r bobl rydym ni’n eu gwasanaethu. Rydym ni’n canolbwyntio'n arbennig ar gyrraedd y cymunedau a’r unigolion sydd wedi'u tangynrychioli ar hyn o bryd.

Ein bwriad drwy'r cynllun a'i gynigion gwariant yw bodloni'r amcanion uchod. Ond rydym ni hefyd yng nghanol pandemig a lle bo’n briodol, rydym ni wedi cydnabod hyn ac effaith bosibl y coronafeirws sydd hyn yn hyn yn anhysbys. Nid yw'r 3 prif weithred yn ein cynllun gweithredol wedi'u nodi fel rhai sy'n cael effaith negyddol ar y meysydd dan sylw, ond gallai effeithiau’r coronafeirws gael effaith negyddol. Mae’r rhain yn y tablau canlynol.

## 3. A yw'r bobl yr effeithiwyd arnynt wedi cael eu cynnwys ac a ymgynghorwyd â nhw?

Llywiwyd y cynlluniau gweithredol a chorfforaethol gan broses ymchwil, ymgysylltu ac ymgynghori, ar y cychwyn drwy raglen o weithgareddau yn ein Sgwrs Greadigol Cymru Gyfan - cyfarfodydd wyneb yn wyneb a gweithgarwch ar-lein drwy holiaduron. Ymgysylltwyd â thros 500 o bobl o wahanol gefndiroedd a lleoliadau mewn 12 digwyddiad. Dyna oedd sail llunio ein cynllun gweithredol gyda mewnbwn o'n staff hefyd. Caiff y cynlluniau corfforaethol a gweithredol eu hystyried gan ein Cyngor a'u cymeradwyo'n swyddogol gan Lywodraeth Cymru.

## 4. Beth sy'n digwydd i gyfyngu ar unrhyw effaith negyddol neu hyrwyddo effaith gadarnhaol ar grwpiau gwarchodedig, y Gymraeg a nodau Cenedlaethau'r Dyfodol?

Llenwch y tabl yn Atodiad Atodiad 1.

Os nodir addasiadau, rhestrwch nhw yn y templed camau gweithredu yn Appendix 2.

Ein gweledigaeth yw Cymru Greadigol lle mae'r celfyddydau wrth wraidd ein bywyd a'n lles.

Rydym ni'n uchelgeisiol dros gelfyddydau Cymru. Ein strategaeth yw:

- magu ein talentau gorau
- cael y trawstoriad ehangaf i fwynhau'r celfyddydau a chymryd rhan ynddynt
- meithrin gwaith ardderchog i'w werthfawrogi

Credwn yn angerddol fod sector celfyddydol ffyniannus wedi ymrwymo i ragoriaeth, arloesedd a chynhwysiant. Mae'n cyfrannu at les diwylliannol, cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol Cymru. Mae artistiaid a sefydliadau celfyddydol yn hyderus a llewyrchus ac maent yn cyflawni'n dda yn erbyn saith nod llesiant Cymru, gan gynnwys cydraddoldeb a'r Gymraeg.

Y ffordd orau o ddisgrifio uchelgais ein gwaith ar gydraddoldeb yw yn ein cynllun corfforaethol, Er budd pawb, a'n cynllun cydraddoldeb strategol. Maent yn nodi ein cynlluniau i gynyddu nifer y bobl sy'n mwynhau'r celfyddydau a chymryd rhan ynddynt a thargedu'r bobl o gymunedau a chefndiroedd y mae'r celfyddydau yn methu â'u cynrychioli'n llawn ar hyn o bryd.

## 5. Sut y bydd y cynnig yn hyrwyddo cydraddoldeb, dileu gwahaniaethu a hyrwyddo cysylltiadau da?

Mae'r adolygiad a'r cynigion yma’n cyd-fynd â'n 3 blaenoriaeth gyffredinol yn ein cynllun corfforaethol, Er budd pawb. Mae’r flaenoriaeth gyntaf yn canolbwyntio ar gydraddoldeb a'r drydedd ar gydweithio a phartneriaethau.

Yn Atodiad 1 mae manylion penodol am y budd a’r effaith negyddol bosibl yng ngwaith ein cynllun gweithredol. Ond hoffwn dynnu sylw at un rhaglen yn benodol, **Ehangu Ymgysylltiad**.

Rhaid cael cynrychiolaeth ehangach o boblogaeth Cymru o blith mynychwyr, cyfranogwyr, gweithwyr, artistiaid ac aelodau bwrdd. Roeddem ni wedi comisiynu adroddiad gan 64 Miliwn Artist a oedd yn archwilio opsiynau ar gyfer symud y gwaith ymlaen ar draws yr holl ystod gan gynnwys cydraddoldeb, gwaith cymunedol, iaith a ffactorau daearyddol. Caiff yr argymhellion eu datblygu dan y rhaglen yma gyda buddsoddiad sylweddol dros nifer o flynyddoedd.

Byddwn ni’n monitro effaith ein cynigion ar gydraddoldeb drwy ein trefniadau rheolaidd ar gyfer monitro cydraddoldeb ac yn adrodd amdano.

| | |
|---|---|
| **Asesiad o effaith cyfunol wedi'i gymeradwyo gan:** | Nick Capaldi, Prif Weithredwr |
| **Dyddiad cymeradwyo:** | 1 Gorffennaf 2020 |

# Atodiad 1

## Asesu effaith a chryfhau

Mae'r adran yn gofyn ichi asesu effaith y cynnig ar bob un o'r grwpiau gwarchodedig, y Gymraeg a nodau llesiant Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol. Gan ddefnyddio'r wybodaeth sydd ar gael, nodwch effeithiau'r cynnig ar y grwpiau canlynol.

Mae'r ystyriaethau canlynol yn ychwanegol at:

- yr effaith gadarnhaol bosibl a sylweddol sy'n deillio o'r argymhellion yn yr adroddiad a gomisiynwyd gan 64 Miliwn Artist sy'n cael eu cynnwys yn y broses **Ehangu Ymgysylltiad**, a amlinellwyd uchod

- y posibiliadau a'r effaith negyddol sylweddol yn fyd-eang, yn genedlaethol ac yn lleol sy'n deillio o bandemig presennol y coronafeirws

### Oed *(ar draws yr ystod oed)*

| Nodwch yr effaith bosibl | | | |
|---|---|---|---|
| Dewiswch Effaith gadarnhaol, Effaith negyddol neu Dim effaith | Sut yr effeithir ar y categori yma a beth yw'r dystiolaeth? | Sut y gallech chi gyfyngu ar yr effaith negyddol? | Sut y gallwch hyrwyddo'r effaith gadarnhaol? |
| Effaith gadarnhaol | Mae ein rhaglen dysgu creadigol wedi herio'r Llywodraeth i roi'r celfyddydau wrth wraidd y cwricwlwm ysgol. Un o'r rhaglenni gwaith allweddol sydd yn y | | Byddwn ni'n canolbwyntio ar 2 faes allweddol drwy'r rhaglen: |

| Nodwch yr effaith bosibl | | | |
|---|---|---|---|
| Dewiswch Effaith gadarnhaol, Effaith negyddol neu Dim effaith | Sut yr effeithir ar y categori yma a beth yw'r dystiolaeth? | Sut y gallech chi gyfyngu ar yr effaith negyddol? | Sut y gallwch hyrwyddo'r effaith gadarnhaol? |
| | cynllun gweithredol yw **Pobl Ifanc a Dysgu Creadigol** i ddatblygu'r gwaith.<br><br>Mae'r rhaglen yn canolbwyntio ar y rhai difreintiedig a'r rhai sydd mewn perygl o gael eu hanwybyddu, hynny yw'r rhai sydd wedi'u gwahanu oddi wrth y system prif ffrwd o ran hyfforddiant ac addysg.<br><br>Hefyd mae **Llwybrau Creadigo**l – rhaglen waith allweddol arall sydd yn y cynllun – yn cefnogi datblygiad gyrfaoedd i bobl ifanc.<br><br>Yn y blynyddoedd diwethaf, rydym ni hefyd wedi bod yn un o gefnogwyr pennaf cyfleoedd creadigol i bobl hŷn mewn mentrau fel Gŵyl y Gwanwyn. Rydym ni hefyd yn bartneriaid | | • cefnogi ein pobl ifanc i ddatblygu eu talentau creadigol<br><br>• meithrin amgylchedd lle gellir adnabod, ysbrydoli, meithrin a dathlu talent<br><br>Bydd y rhaglen yn darparu ail gam ein gweithgarwch dysgu creadigol a thargedu gwaith yn y gymuned, i sicrhau bod pobl ifanc yn cael y cyfle i gael budd, ni waeth lle maent yn byw.<br><br>Mae **Llwybrau Creadigol** yn ffordd o gael ein mentrau, ein sefydliadau a'n rhaglenni ariannu i gynnig cyfleoedd, gan gynnwys i bobl ifanc, drwy wahanol gynlluniau cymorth |

| Nodwch yr effaith bosibl | | | |
|---|---|---|---|
| Dewiswch Effaith gadarnhaol, Effaith negyddol neu Dim effaith | Sut yr effeithir ar y categori yma a beth yw'r dystiolaeth? | Sut y gallech chi gyfyngu ar yr effaith negyddol? | Sut y gallwch hyrwyddo'r effaith gadarnhaol? |
| | gydag Age Cymru a Sefydliad Baring i sicrhau datblygu hygyrchedd i'r celfyddydau i roi buddion i'r henoed mewn gofal cymdeithasol. | | gan gynnwys prentisiaethau a lleoliadau gwaith.<br><br>Byddwn ni'n parhau i gefnogi mentrau ar gyfer pobl hŷn, gan gynnwys y rhai sy'n rhan o'r **Celfyddydau ac Iechyd**. Mae ystyriaethau am oed yn elfen allweddol o'r gwaith. |

## Anabledd

| Nodwch yr effaith bosibl | | | |
|---|---|---|---|
| Dewiswch Effaith gadarnhaol, Effaith negyddol neu Dim effaith | Sut yr effeithir ar y categori yma a beth yw'r dystiolaeth? | Sut y gallech chi gyfyngu ar yr effaith negyddol? | Sut y gallwch hyrwyddo'r effaith gadarnhaol? |
| Effaith gadarnhaol | Nod **Ehangu Ymgysylltiad** yw hyrwyddo hygyrchedd teg a chyfartal i'r celfyddydau i artistiaid, cynulleidfaoedd a chyfranogwyr. | | Bydd **Ehangu Ymgysylltiad** yn sicrhau bod pob un o'n rhaglenni gydag arian y Loteri Genedlaethol yn targedu'r sefydliadau sy'n cyrraedd cymunedau ehangach a chynulleidfaoedd mwy amrywiol, yn enwedig pobl anabl. Byddwn ni'n cynnal ymgyrch gyhoeddus sy'n hyrwyddo hyn.<br><br>Cyn y coronafeirws roeddem ni wedi cynnwys mentrau penodol sy'n targedu pobl anabl drwy raglenni'r Loteri Genedlaethol:<br><br>• *Heb Ffiniau* – cynnig cyfleoedd comisiynu i ddathlu ac arddangos gwaith gan artistiaid anabl |

| Nodwch yr effaith bosibl | | | |
|---|---|---|---|
| Dewiswch Effaith gadarnhaol, Effaith negyddol neu Dim effaith | Sut yr effeithir ar y categori yma a beth yw'r dystiolaeth? | Sut y gallech chi gyfyngu ar yr effaith negyddol? | Sut y gallwch hyrwyddo'r effaith gadarnhaol? |
| | | | • *Camau creadigol* - cynllun sy'n darparu cymorth targedol i sefydliadau celfyddydol dan arweiniad pobl â nodweddion gwarchodedig gan gynnwys pobl anabl a datblygu ymarfer yn y maes.<br><br>• *Newidwyr* – cynllun sy'n rhoi pobl anabl a phobl dduon, Asiaidd ac o gefndiroedd ethnig lleiafrifol mewn swyddi uwch yn y celfyddydau.<br><br>• Rampiau Cymru - cyflawni newid sylweddol yn y cyfleoedd gwaith a chelfyddydol ar gyfer perfformwyr a thimau creadigol anabl, a newid |

| Nodwch yr effaith bosibl | | | |
|---|---|---|---|
| Dewiswch Effaith gadarnhaol, Effaith negyddol neu Dim effaith | Sut yr effeithir ar y categori yma a beth yw'r dystiolaeth? | Sut y gallech chi gyfyngu ar yr effaith negyddol? | Sut y gallwch hyrwyddo’r effaith gadarnhaol? |
| | | | diwylliannol yn y sefydliadau sy'n cymryd rhan er mwyn i hygyrchedd fod yn rhan ganolog o'u meddylfryd a'u hestheteg.<br><br>Byddwn ni’n ailedrych ar y rhain a datblygu rhaglenni ymgysylltu pellach, gan ystyried yr adborth a gawn gan gymunedau, pan fyddwn ni’n dod â'n rhaglenni Loteri Genedlaethol yn ôl ar waith yn ddiweddarach eleni.<br><br>Hefyd rydym ni’n gweithio i gynhyrchu proses ymgeisio symlach a fydd o fudd i bob un o'n darpar ymgeiswyr ac a fydd, gyda chymorth sefydliadau arbenigol, gan gynnwys Celfyddydau Anabledd Cymru, yn diwallu |

| Nodwch yr effaith bosibl | | | |
|---|---|---|---|
| Dewiswch Effaith gadarnhaol, Effaith negyddol neu Dim effaith | Sut yr effeithir ar y categori yma a beth yw'r dystiolaeth? | Sut y gallech chi gyfyngu ar yr effaith negyddol? | Sut y gallwch hyrwyddo'r effaith gadarnhaol? |
| | | | unrhyw ofynion cymorth arbenigol a allai fod gan ymgeisydd.<br><br>Mae ein canllawiau wedi'u hysgrifennu mewn Cymraeg Clir/Plain English ac mae'n cydymffurfio â hygyrchedd AAA, gan gynnwys ei fformat i gynnwys darllenwyr sgrin. |
| Effaith negyddol | Rydym ni'n ymwybodol o effaith benodol y coronafeirws ar bobl ac artistiaid anabl o fynd yn fwyfwy ynysig dan fygythiad yn sgil y coronafeirws. | Byddwn ni'n cynnwys yr ystyriaeth yma wrth ddatblygu rhagor o raglenni i ehangu ymgysylltiad, gan ystyried yr adborth a gawn gan gymunedau, pan fyddwn ni'n dod â'n rhaglenni Loteri Genedlaethol yn ôl ar waith yn ddiweddarach eleni. | |

## Ailbennu rhywedd

| Nodwch yr effaith bosibl | | | |
|---|---|---|---|
| Dewiswch Effaith gadarnhaol, Effaith negyddol neu Dim effaith | Sut yr effeithir ar y categori yma a beth yw'r dystiolaeth? | Sut y gallech chi gyfyngu ar yr effaith negyddol? | Sut y gallwch hyrwyddo'r effaith gadarnhaol? |
| Dim effaith | Mae ein cynllun corfforaethol, *Er budd pawb*, yn rhoi ymrwymiad clir i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb wrth gynnig gweithgarwch celfyddydol ledled Cymru. Bydd ein trefniadau monitro ac adrodd o ran cyfle cyfartal yn darparu data ar draws nodweddion gwarchodedig ymgeiswyr unigol a gwaith targedol ein sefydliadau. | | |

## Priodas / partneriaeth sifil

| Nodwch yr effaith bosibl | | | |
|---|---|---|---|
| Dewiswch Effaith gadarnhaol, Effaith negyddol neu Dim effaith | Sut yr effeithir ar y categori yma a beth yw'r dystiolaeth? | Sut y gallech chi gyfyngu ar yr effaith negyddol? | Sut y gallwch hyrwyddo'r effaith gadarnhaol? |
| Dim effaith | Mae ein cynllun corfforaethol, *Er budd pawb*, yn rhoi ymrwymiad clir i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb wrth gynnig gweithgarwch celfyddydol ledled Cymru. Bydd ein trefniadau monitro ac adrodd o ran cyfle cyfartal yn darparu data ar draws nodweddion gwarchodedig ymgeiswyr unigol a gwaith targedol ein sefydliadau. | | |

## Bod yn feichiog a mamolaeth

| Nodwch yr effaith bosibl | | | |
|---|---|---|---|
| Dewiswch Effaith gadarnhaol, Effaith negyddol neu Dim effaith | Sut yr effeithir ar y categori yma a beth yw'r dystiolaeth? | Sut y gallech chi gyfyngu ar yr effaith negyddol? | Sut y gallwch hyrwyddo'r effaith gadarnhaol? |
| Dim effaith | Mae ein cynllun corfforaethol, *Er budd pawb*, yn rhoi ymrwymiad clir i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb wrth gynnig gweithgarwch celfyddydol ledled Cymru. Bydd ein trefniadau monitro ac adrodd o ran cyfle cyfartal yn darparu data ar draws nodweddion gwarchodedig ymgeiswyr unigol a gwaith targedol ein sefydliadau. | | |

## Hil

| Nodwch yr effaith bosibl | | | |
|---|---|---|---|
| Dewiswch Effaith gadarnhaol, Effaith negyddol neu Dim effaith | Sut yr effeithir ar y categori yma a beth yw'r dystiolaeth? | Sut y gallech chi gyfyngu ar yr effaith negyddol? | Sut y gallwch hyrwyddo'r effaith gadarnhaol? |
| Effaith gadarnhaol | Nod **Ehangu Ymgysylltiad** yw hyrwyddo hygyrchedd teg a chyfartal i'r celfyddydau i artistiaid, cynulleidfaoedd a chyfranogwyr. | | Bydd **Ehangu Ymgysylltiad** yn sicrhau bod ein holl weithgarwch, gan gynnwys rhaglenni'r Loteri Genedlaethol, yn targedu'r sefydliadau sy'n cyrraedd cymunedau ehangach a chynulleidfaoedd mwy amrywiol, yn enwedig pobl dduon, Asiaidd ac o gefndiroedd ethnig lleiafrifol. Byddwn ni'n cynnal ymgyrch gyhoeddus sy'n hyrwyddo hyn. |
| Effaith gadarnhaol | Mae **Rhyngwladol** yn rhaglen waith allweddol arall. Mae ein celfyddydau, ein diwylliant a'n hieithoedd yn rhoi proffil unigryw i Gymru yn y byd. Mae'r cyd-destun diwylliannol yma'n taro tant gyda llawer o ieithoedd a diwylliannau lleiafrifol eraill a gellir adrodd y stori yna o gwmpas y byd | | **Rhaglen Ryngwlado**l - rydym ni am greu cyd-destun diwylliannol newydd sy'n meithrin dealltwriaeth a goddefgarwch rhyngwladol drwy ymgysylltu â'r gwahanol gymunedau rhyngwladol yng Nghymru. Mae ein strategaeth ryngwladol yn adlewyrchu blaenoriaethau ein cynllun |

| Nodwch yr effaith bosibl | | | |
|---|---|---|---|
| Dewiswch Effaith gadarnhaol, Effaith negyddol neu Dim effaith | Sut yr effeithir ar y categori yma a beth yw'r dystiolaeth? | Sut y gallech chi gyfyngu ar yr effaith negyddol? | Sut y gallwch hyrwyddo’r effaith gadarnhaol? |
| | | | corfforaethol ac mae wedi'i gynllunio i gyflawni strategaeth Llywodraeth Cymru. |
| Effaith negyddol | Rydym ni’n ymwybodol o effaith benodol y coronafeirws ar bobl dduon, Asiaidd ac o gefndiroedd ethnig lleiafrifol o fynd yn ynysig a'u bygwth yn gynyddol gan y coronafeirws. | Byddwn ni’n cynnwys yr ystyriaeth yma wrth ddatblygu rhagor o raglenni i ehangu ymgysylltiad, gan ystyried yr adborth a gawn gan gymunedau, pan fyddwn ni’n dod â'n rhaglenni Loteri Genedlaethol yn ôl ar waith yn ddiweddarach eleni.<br><br>Rydym ni’n gweld<br>nifer cynyddol o sefydliadau yn datblygu rhaglenni pwysig o weithgarwch rhyngwladol a byddwn ni’n gweithio i gefnogi hyn yn sgil y coronafeirws | |

## Crefydd / Cred

| Nodwch yr effaith bosibl | | | |
|---|---|---|---|
| Dewiswch Effaith gadarnhaol, Effaith negyddol neu Dim effaith | Sut yr effeithir ar y categori yma a beth yw'r dystiolaeth? | Sut y gallech chi gyfyngu ar yr effaith negyddol? | Sut y gallwch hyrwyddo’r effaith gadarnhaol? |
| Dim effaith | Mae ein cynllun corfforaethol, *Er budd pawb*, yn rhoi ymrwymiad clir i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb wrth gynnig gweithgarwch celfyddydol ledled Cymru. Bydd ein trefniadau monitro ac adrodd cyfle cyfartal yn darparu data ar draws nodweddion gwarchodedig ymgeiswyr unigol a gwaith targedol ein sefydliadau. | | |

## Rhywedd

| Nodwch yr effaith bosibl | | | |
|---|---|---|---|
| Dewiswch Effaith gadarnhaol, Effaith negyddol neu Dim effaith | Sut yr effeithir ar y categori yma a beth yw'r dystiolaeth? | Sut y gallech chi gyfyngu ar yr effaith negyddol? | Sut y gallwch hyrwyddo'r effaith gadarnhaol? |
| Dim effaith | Mae ein cynllun corfforaethol, *Er budd pawb*, yn rhoi ymrwymiad clir i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb wrth gynnig gweithgarwch celfyddydol ledled Cymru. Bydd ein trefniadau monitro ac adrodd cyfle cyfartal yn darparu data ar draws nodweddion gwarchodedig ymgeiswyr unigol a gwaith targedol ein sefydliadau. | | |

## Cyfeiriadedd rhywiol

| Nodwch yr effaith bosibl | | | |
|---|---|---|---|
| Dewiswch Effaith gadarnhaol, Effaith negyddol neu Dim effaith | Sut yr effeithir ar y categori yma a beth yw'r dystiolaeth? | Sut y gallech chi gyfyngu ar yr effaith negyddol? | Sut y gallwch hyrwyddo’r effaith gadarnhaol? |
| Dim effaith | Mae ein cynllun corfforaethol, *Er budd pawb*, yn rhoi ymrwymiad clir i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb wrth gynnig gweithgarwch celfyddydol ledled Cymru. Bydd ein trefniadau monitro ac adrodd cyfle cyfartal yn darparu data ar draws nodweddion gwarchodedig ymgeiswyr unigol a gwaith targedol ein sefydliadau. | | |

## Diwylliant a’r Gymraeg

| Nodwch yr effaith bosibl | | | |
|---|---|---|---|
| Dewiswch Effaith gadarnhaol, Effaith negyddol neu Dim effaith | Sut yr effeithir ar y categori yma a beth yw'r dystiolaeth? | Sut y gallech chi gyfyngu ar yr effaith negyddol? | Sut y gallwch hyrwyddo’r effaith gadarnhaol? |
| Effaith gadarnhaol | Mae ein hymrwymiad i hyrwyddo'r Gymraeg yn rhan annatod o'n Siarter Frenhinol ac mae tystiolaeth ohono yn ein holl ddogfennau strategol gan gynnwys ein cynllun corfforaethol, *Er budd pawb*.<br><br>Mae ein canllawiau a'n proses o ran ymgeisio am grantiau, swyddi a chaffael ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg ac anogwn ymgeiswyr i ymgeisio yn eu dewis iaith.<br><br>Rydym ni’n mynnu bod pobl sy’n cyfrannu at ein cylchlythyr yn ei wneud yn ddwyieithog a bod derbynwyr grant yn darparu deunydd marchnata dwyieithog i’w prosiectau a hyrwyddo ac annog y | | Byddwn ni’n parhau i wneud y Gymraeg yn flaenoriaeth allweddol yn ein rhaglenni gwaith. Mae'r rhain yn cynnwys gweithgarwch dan ein **Hymgysylltiad a'n Gwytnwch a'n Cynaliadwyedd**. Byddwn ni’n meithrin creadigrwydd drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg ac ymgymryd â gweithgarwch creu gweledigaeth a mapio o ran y Gymraeg.<br><br>Trwy raglenni diwygiedig y Loteri Genedlaethol, byddwn ni’n cefnogi a monitro’r gweithgarwch ac adrodd arno. Bydd Grŵp Monitro’r Gymraeg yn craffu ar gynnydd a darparu adroddiadau rheolaidd (a gyhoeddir yn flynyddol) i'r uwch dîm arwain a'r Cyngor. |

| Nodwch yr effaith bosibl | | | |
|---|---|---|---|
| Dewiswch Effaith gadarnhaol, Effaith negyddol neu Dim effaith | Sut yr effeithir ar y categori yma a beth yw'r dystiolaeth? | Sut y gallech chi gyfyngu ar yr effaith negyddol? | Sut y gallwch hyrwyddo’r effaith gadarnhaol? |
| | defnydd o'r Gymraeg yn flaenoriaeth allweddol.<br><br>Rydym ni’n monitro gweithgarwch a ariannwn ac adrodd arno, gan gynnwys gweithgarwch dwyieithog a Chymraeg. | | |

## Cymunedol *(gan gynnwys bod yn wledig)*

| Nodwch yr effaith bosibl | | | |
|---|---|---|---|
| Dewiswch Effaith gadarnhaol, Effaith negyddol neu Dim effaith | Sut yr effeithir ar y categori yma a beth yw'r dystiolaeth? | Sut y gallech chi gyfyngu ar yr effaith negyddol? | Sut y gallwch hyrwyddo’r effaith gadarnhaol? |
| Effaith gadarnhaol | Mae ein gweithgarwch ymchwil a'n data yn dangos bod cymunedau ledled Cymru lle mae hygyrchedd i'r celfyddydau, fel cyfranogwyr neu aelodau o gynulleidfa, yn cael ei effeithio'n andwyol oherwydd eu safle daearyddol. Gall hyn gynnwys lleoliad, diffyg cyfleusterau addas a hygyrchedd at drafnidiaeth gyhoeddus.<br><br>Hefyd gall rhai cymunedau fod wedi ymddieithrio o weithgarwch creadigol oherwydd eu hamrywiaeth. | | Mae hygyrchedd i'r gweithgarwch creadigol ar gyfer pob cymuned ledled Cymru yn flaenoriaeth ymhob maes rhaglen, ond mae’r rhaglen **Ehangu Ymgysylltiad** yn mynd i'r afael â'r nod yna’n benodol. Trwy'r rhaglen byddwn ni’n canolbwyntio ar sut y byddwn ni’n cyrraedd cymunedau ac ymgysylltu â nhw, gan ystyried rhwystrau posibl rhag profi'r celfyddydau gan gynnwys lle maent yn byw a hygyrchedd at wasanaethau cyhoeddus.<br><br>Mae ein rhaglen **Ryngwladol** yn canolbwyntio'n benodol ar ymgysylltu â'r gwahanol gymunedau rhyngwladol yng Nghymru, gan ystyried ffyrdd o |

| Nodwch yr effaith bosibl | | | |
|---|---|---|---|
| Dewiswch Effaith gadarnhaol, Effaith negyddol neu Dim effaith | Sut yr effeithir ar y categori yma a beth yw'r dystiolaeth? | Sut y gallech chi gyfyngu ar yr effaith negyddol? | Sut y gallwch hyrwyddo’r effaith gadarnhaol? |
| | | | gyfrannu at gysylltiadau diwylliannol a’u cyfoethogi.<br><br>Cyfeirir at ystyriaethau cymunedol yn y 3 gweithred allweddol a nodwn yn ein holl brif raglenni gwaith. |

## Byd-eang *(defnyddio adnoddau naturiol, masnach deg/cyflogaeth a chaffael moesegol)*

| Nodwch yr effaith bosibl | | | |
|---|---|---|---|
| Dewiswch Effaith gadarnhaol, Effaith negyddol neu Dim effaith | Sut yr effeithir ar y categori yma a beth yw'r dystiolaeth? | Sut y gallech chi gyfyngu ar yr effaith negyddol? | Sut y gallwch hyrwyddo'r effaith gadarnhaol? |
| Effaith gadarnhaol | Rydym ni am greu cyd-destun diwylliannol newydd sy'n meithrin dealltwriaeth a goddefgarwch rhyngwladol drwy ymgysylltu â'r gwahanol gymunedau rhyngwladol yng Nghymru. Nid yw'n ddigon inni ystyried gwaith rhyngwladol yn gyfle i ymelwa, rhaid inni ddod o hyd i ffyrdd o gyfrannu a chyfoethogi cysylltiadau diwylliannol. Bydd ailddiffinio ein perthynas ag Ewrop hefyd yn bwysig yn y dyfodol.<br><br>Ond gweithgarwch rhyngwladol oedd un o'r meysydd cyntaf o'n gwaith i gael ei effeithio arno gan y coronafeirws. | | Mae ein celfyddydau, ein diwylliant a'n hieithoedd yn rhoi proffil unigryw i Gymru yn y byd. Mae'r cyd-destun diwylliannol yma'n taro tant gyda llawer o ieithoedd a diwylliannau lleiafrifol eraill a gellir adrodd y stori yna o gwmpas y byd.<br><br>Trwy ein rhaglen **Ryngwladol** yn bennaf, byddwn ni'n sicrhau bod sefydliadau ac artistiaid sy'n barod ar gyfer y farchnad yn cael cyfle i arddangos eu gwaith mewn marchnadoedd rhyngwladol ar yr amser priodol ac yn y fforwm priodol.<br><br>Mae **Llwybrau Creadigol** yn ffordd o gael ein mentrau, ein sefydliadau a'n rhaglenni ariannu i gynnig cyfleoedd, gan gynnwys i bobl ifanc, |

| Nodwch yr effaith bosibl | | | |
|---|---|---|---|
| Dewiswch Effaith gadarnhaol, Effaith negyddol neu Dim effaith | Sut yr effeithir ar y categori yma a beth yw'r dystiolaeth? | Sut y gallech chi gyfyngu ar yr effaith negyddol? | Sut y gallwch hyrwyddo'r effaith gadarnhaol? |
| | Bydd buddsoddi yng ngwaith creadigol ein hunigolion, ein cwmnïau a'n cymunedau mwyaf talentog (ar wahanol adegau yn eu gyrfa) yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Y celfyddydau, y sector diwylliannol a'r diwydiannau creadigol yw rhai o'r sectorau economaidd sy'n tyfu gyflymaf yng Nghymru. Creadigrwydd yw un o'r sgiliau y mae cyflogwyr ei eisiau fwyaf. | | drwy wahanol gynlluniau cymorth gan gynnwys prentisiaethau a lleoliadau gwaith.<br><br>Pan nodir bylchau allweddol yn y ddarpariaeth, byddwn ni'n gweithio i integreiddio a chydweithio gyda phobl eraill â diddordeb i'w llenwi i atal neb rhag cael niwed. Ni ddylai gweithwyr y sector gynnwys dim ond bobl freintiedig. Rhaid cael chwarae teg o ran cyflogaeth a chyfleoedd yn ein sector. Rydym ni'n cefnogi pobl heb gynrychiolaeth ddigonol a phobl â nodweddion gwarchodedig i ffynnu a dod o hyd i waith. |

## Iechyd

| Nodwch yr effaith bosibl | | | |
|---|---|---|---|
| Dewiswch Effaith gadarnhaol, Effaith negyddol neu Dim effaith | Sut yr effeithir ar y categori yma a beth yw'r dystiolaeth? | Sut y gallech chi gyfyngu ar yr effaith negyddol? | Sut y gallwch hyrwyddo'r effaith gadarnhaol? |
| Effaith gadarnhaol | Mae ymchwil yn dangos bod y celfyddydau'n wir rym o ran iechyd personol a chymdeithasol. Trwy weithgarwch prosiect rydym ni wedi'i ariannu o'r blaen, roeddem ni'n gallu dangos bod gwaith y celfyddydau ac iechyd yn cael effaith fuddiol ar bobl ar draws yr ystod oed, dosbarth cymdeithasol a daearyddiaeth yng Nghymru.<br><br>Mae diddordeb yn y berthynas rhwng y celfyddydau ac iechyd yn tyfu, felly mae'n bwysig ein bod yn rheoli'n ofalus y twf yma yn ein sector gan ei ystyried yn gyfle datblygu busnes. Rhaid i'n harian gwerthfawr i'r celfyddydau roi blaenoriaeth i gynnal artistiaid a sefydliadau celfyddydol. | | Mae gennym raglen benodol ar gyfer y **Celfyddydau ac Iechyd** i ddatblygu'r gwaith.<br><br>Rydym ni'n gweithio'n agos â chydweithwyr mewn cyrff iechyd fel y byrddau iechyd ac mae gennym femorandwm cyd-ddealltwriaeth â Chydffederasiwn y GIG yng Nghymru i hyrwyddo gwerth gweithgarwch creadigol i sicrhau gwell canlyniadau iechyd i Gymru.<br><br>Byddwn ni'n gweithio gyda NESTA, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru a Chydffederasiwn y GIG i integreiddio ein gwaith a chydweithio â nhw i ddatblygu atebion cynaliadwy yn yr hir dymor. |

## Ffyniant *(gan gynnwys cynaladwyedd, sefydlogrwydd ariannol a datblygiad gyrfa/ cyfleoedd)*

| Nodwch yr effaith bosibl | | | |
|---|---|---|---|
| Dewiswch Effaith gadarnhaol, Effaith negyddol neu Dim effaith | Sut yr effeithir ar y categori yma a beth yw'r dystiolaeth? | Sut y gallech chi gyfyngu ar yr effaith negyddol? | Sut y gallwch hyrwyddo'r effaith gadarnhaol? |
| Effaith gadarnhaol | Mae creu a chyflwyno gwaith newydd yn sylfaenol i ddiwylliant bywiog a chyfoes. I greu amgylchedd o gelfyddydau o safon a chynyddu ymgysylltiad a hygyrchedd, rhaid inni hefyd greu amgylchedd cefnogol lle mae artistiaid a sefydliadau celfyddydol yn debycach o ffynnu.<br><br>Rhaid i artistiaid a sefydliadau celfyddydol sicrhau bod eu gwaith yn berthnasol i gynifer o bobl â phosibl er mwyn iddynt ffynnu. Rydym ni am gefnogi sector y celfyddydau i wella eu busnes fel y gallant gyrraedd cynifer o gwsmeriaid â phosibl a'u cynnal eu hunain yn well. | | Mae'r rhaglen **Wytnwch a Chynaliadwyedd** yn ceisio creu amgylchedd cefnogol i ddiogelu a meithrin artistiaid a sefydliadau celfyddydol a chaniatáu iddynt ffynnu, yn enwedig o ystyried effaith y coronafeirws.<br><br>Bydd bddsoddi yng ngwaith creadigol ein hunigolion, ein cwmnïau a'n cymunedau mwyaf talentog (ar wahanol adegau yn eu gyrfa) yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Trwy ein rhaglenni megis **Llwybrau Creadigol** byddwn ni'n sicrhau bod artistiaid a sefydliadau celfyddydol yn ffynnu ac yn dod o hyd i waith a chynulleidfaoedd ar gyfer eu gwaith, eu bod yn gallu cael hyfforddiant fforddiadwy i fanteisio |

| Nodwch yr effaith bosibl | | | |
|---|---|---|---|
| Dewiswch Effaith gadarnhaol, Effaith negyddol neu Dim effaith | Sut yr effeithir ar y categori yma a beth yw'r dystiolaeth? | Sut y gallech chi gyfyngu ar yr effaith negyddol? | Sut y gallwch hyrwyddo'r effaith gadarnhaol? |
| | | | ar gyfleoedd a chynnal rhwydweithiau i rannu arfer dda a darparu cymorth. |
| Effaith negyddol | Rydym ni wedi gwneud popeth a allwn i sicrhau y bydd rhaglenni diwygiedig y Loteri Genedlaethol a'n cronfa wytnwch, a gyflwynwyd mewn ymateb i'r coronafeirws, yn cynnig y cyfleoedd hanfodol a'r amddiffyniad i'r celfyddydau. Ond mae'n rhaid inni gydnabod ein hinsawdd ariannol a'r pwysau ariannol arnom oll.<br><br>Mae'r Llywodraeth Cymru dan bwysau i gefnogi ac adfer ein heconomi yn sgil y coronafeirws a chynyddu'r arian i nifer o feysydd â blaenoriaeth megis addysg, iechyd a thrafnidiaeth gyhoeddus. Mae hyn yn arwain at ostyngiadau ariannol sylweddol i feysydd eraill. Yn | | Mae angen i artistiaid a sefydliadau celfyddydol sicrhau bod eu gwaith yn berthnasol i gynifer o bobl â phosibl er mwyn iddynt ffynnu. Trwy ein rhaglen **Wytnwch a Chynaliadwyedd** byddwn ni'n helpu a chefnogi sector y celfyddydau i wella eu busnes fel y gallant gyrraedd cynifer o gwsmeriaid â phosibl a'u cynnal eu hunain yn well.<br><br>Rydym wedi nodi a dyrannu arian priodol i bob un o'r meysydd yma, gan sicrhau ein bod wedi dod i'r cyfaddawd gorau y gallwn rhwng yr hyn sydd ei angen a'r hyn y gallwn ei fforddio. Byddwn ni'n monitro'r galw a'r gwariant yn erbyn yr arian |

| Nodwch yr effaith bosibl | | | |
|---|---|---|---|
| Dewiswch Effaith gadarnhaol, Effaith negyddol neu Dim effaith | Sut yr effeithir ar y categori yma a beth yw'r dystiolaeth? | Sut y gallech chi gyfyngu ar yr effaith negyddol? | Sut y gallwch hyrwyddo'r effaith gadarnhaol? |
| | rhannol mae ein trefniadau ariannol yn ymdrin â'r ystyriaeth. Ond mae llawer sydd y tu hwnt i'n rheolaeth ni. | | ac yn gwneud unrhyw addasiadau angenrheidiol.<br><br>Byddwn ni'n parhau i eiriol a lobïo'n gryf dros y celfyddydau a'u lle yn ein diwylliant a'n bywyd bob dydd. Ni ddylai'r celfyddydau fod yn rhywbeth sydd ddim ond ar gael i'r rheini sy'n gallu ei fforddio. Mae profi a mwynhau'r celfyddydau'n rhywbeth i bawb. |

**Gwytnwch** *(yr amgylchedd naturiol gan gynnwys nwyon tŷ gwydr ac ôl troed carbon)*

| Nodwch yr effaith bosibl | | | |
|---|---|---|---|
| Dewiswch Effaith gadarnhaol, Effaith negyddol neu Dim effaith | Dewiswch Effaith gadarnhaol, Effaith negyddol neu Dim effaith | Dewiswch Effaith gadarnhaol, Effaith negyddol neu Dim effaith | Dewiswch Effaith gadarnhaol, Effaith negyddol neu Dim effaith |
| Effaith negyddol | Wrth inni ymdrechu i gynyddu hygyrchedd i weithgarwch creadigol i bawb - artistiaid, cyfranogwyr a chynulleidfaoedd - drwy ein gweithgarwch wrth gyflwyno'r rhaglenni, rydym ni'n cydnabod mai un o ganlyniadau hyn yw'r effaith niweidiol bosibl ar ein hôl troed carbon, gan gynnwys cynnydd mewn teithio. | | Rydym eisoes yn monitro ein hôl troed carbon drwy ein dulliau adrodd amgylcheddol a cheisio ffyrdd o leihau'n effeithiol unrhyw effaith negyddol ar yr amgylchedd. Mae arferion gwaith yn ystod cyfyngiadau'r coronafeirws wedi dangos beth y gellir ei gyflawni a'i arbed drwy ddulliau gwahanol.<br><br>Trwy **Ddeall ein heffaith a Cheisio ein gorau glas,** byddwn ni'n parhau i hyrwyddo'r ffyrdd o weithio rydym ni eisoes wedi'u cyflwyno, gan gynnwys defnyddio technoleg i gwrdd yn rhithiol i leihau ar deithio, gweithio'n ystwyth a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus neu drafnidiaeth allyriadau digarbon (er enghraifft, beicio) lle bynnag y bo'n bosibl. |

| Nodwch yr effaith bosibl | | | |
|---|---|---|---|
| Dewiswch Effaith gadarnhaol, Effaith negyddol neu Dim effaith | Dewiswch Effaith gadarnhaol, Effaith negyddol neu Dim effaith | Dewiswch Effaith gadarnhaol, Effaith negyddol neu Dim effaith | Dewiswch Effaith gadarnhaol, Effaith negyddol neu Dim effaith |
| | | | Hefyd byddwn ni'n ceisio datblygu rhagor o gydweithio â Maint Cymru ac adeiladu ar y cynnydd yn ein prosiect Cymru yng Nghaeredin, gan archwilio sut y gallwn ddiogelu ein hamgylchedd.<br><br>Byddwn ni hefyd yn gwerthuso arferion a fabwysiedir mewn ymateb i'r coronafeirws ac ystyried sut y gallwn gynyddu'r rhain i liniaru ar y cynnydd anochel yn ein hôl troed carbon pan fydd y byd yn ymagor unwaith eto ôl y coronafeirws. |

# Atodiad 2

## Camau gweithredu a nodir drwy'r asesiad

Pan fyddwch yn creu cam gweithredu, rhaid ichi sicrhau y gellir ei gyflawni. Rhaid ichi drafod y cam gyda'r swyddog arweiniol. Sicrhewch eich bod yn cytuno ar yr amserlen ac ar sut y caiff ei ariannu, ei ddarparu a'i fonitro. Rhaid gwneud hyn cyn i'r asesiad a'r cynnig cysylltiedig gael eu cymeradwyo.

| Mater | Cam gweithredu/tasg | Cyfrifoldeb arweiniol | Amserlen | Goblygiadau o ran adnoddau | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| Anabledd<br>Rydym ni'n ymwybodol o effaith benodol y coronafeirws ar bobl ac artistiaid anabl o fynd yn fwyfwy ynysig dan fygythiad y coronafeirws | Byddwn ni'n cynnwys yr ystyriaeth wrth ddatblygu rhagor o raglenni i ehangu ymgysylltiad, gan ystyried yr adborth a gawn gan gymunedau, pan fyddwn ni'n dod â rhaglenni'r Loteri Genedlaethol yn ôl ar waith yn ddiweddarach eleni. | Cyfarwyddwr Gweithrediadau (Ariannu'r Celfyddydau)/Cyfarwyddwr Ymgysylltu â'r Celfyddydau | Cyn lansio pob rhaglen a'r canllawiau cysylltiedig (Hydref 2020-Ebrill 2021)<br><br>Ymgynghori Awst-Tachwedd 2020 | Darpariaeth ddigonol o arbenigwyr priodol i fodloni gofynion posibl | |

| Mater | Cam gweithredu/tasg | Cyfrifoldeb arweiniol | Amserlen | Goblygiadau o ran adnoddau | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| **Hil**<br>Rydym ni'n ymwybodol o effaith arbennig y coronafeirws ar bobl dduon, Asiaidd ac o gefndiroedd ethnig lleiafrifol o fynd yn fwyfwy ynysig dan fygythiad y coronafeirws | Byddwn ni'n ailedrych ar y rhaglenni a datblygu rhaglenni ehangu ymgysylltiad pellach, gan ystyried yr adborth a gawn gan gymunedau, pan fyddwn ni'n dod â rhaglenni'r Loteri Genedlaethol yn ôl ar waith yn ddiweddarach eleni. | Cyfarwyddwr Ymgysylltu â'r Celfyddydau | Ymgynghori erbyn Tachwedd 2020 | Darpariaeth ddigonol o arbenigwyr priodol i fodloni gofynion posibl | |
| | Rydym ni'n gweld nifer cynyddol o sefydliadau yn datblygu rhaglenni pwysig o weithgarwch rhyngwladol a byddwn ni'n gweithio i gefnogi hyn yn sgil y coronafeirws | Cyfarwyddwr Gweithrediadau (Ariannu'r Celfyddydau) | Parhaus | | |

| Mater | Cam gweithredu/tasg | Cyfrifoldeb arweiniol | Amserlen | Goblygiadau o ran adnoddau | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ffyniant**<br>Mae'r hinsawdd ariannol bresennol a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru yn cystadlu â'i gilydd a sut y gallai hyn effeithio ar y celfyddydau a chreadigrwydd, yn enwedig yn sgil y coronafeirws | Byddwn ni'n monitro'r galw a'r gwariant yn erbyn arian ar gyfer pob un o raglenni'r Loteri Genedlaethol drwy gydol yr amser ac yn gwneud unrhyw addasiadau angenrheidiol. | Cyfarwyddwr Gweithrediadau (Ariannu'r Celfyddydau)/Cyfarw yddwr Gwasanaethau Cyllid a Busnes | Parhaus | Arian digonol i ateb y galw | |
| | Byddwn ni'n parhau i eiriol a lobïo'n gryf dros y celfyddydau a'u lle yn ein diwylliant a'n bywyd bob dydd. | Uwch dîm arwain/y Cyngor | | Cyfle am weithgarwch lobïo/eiriol | |
| **Gwytnwch**<br>Ein hymdrechion i gynyddu hygyrchedd i weithgarwch creadigol i bawb yn cael effaith niweidiol ar ein hôl troed carbon, gan gynnwys | Parhau i fonitro'r ôl troed carbon presennol<br>Edrych yn bellach ar y posibilrwydd o gael fersiynau parhaus o arferion gwaith cyfredol a roddwyd | Cyfarwyddwr Datblygu'r Celfyddydau/Cyfarwy ddwr Ymgysylltu â'r Celfyddydau | Parhaus | | |

| Mater | Cam gweithredu/tasg | Cyfrifoldeb arweiniol | Amserlen | Goblygiadau o ran adnoddau | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| y cynnydd mewn teithio. | ar waith mewn ymateb i'r coronafeirws a pholisi gweithio'n Ystwyth Ymgysylltu pellach â Maint Cymru a sefydliadau tebyg i archwilio arfer dda | | | | |

**Sut y caiff y rhain eu monitro?**
Trwy eu hadolygu o ran cynnydd yng nghyfarfodydd misol yr uwch dîm arwain fel rhan o adolygu gwybodaeth reoli

**Sut a ble y caiff ei gyhoeddi?**
Trwy ein gwefan. Bydd yr asesiad terfynol yn cael ei gyhoeddi gyda chynllun gweithredol 2020/21